COFNODION CYFARFOD CYNGOR CYMUNED LLANGYNDEYRN A GYNHALIWYD AR 12 o EBRILL 2021 TRWY GYFRWNG ZOOM AM 7.00 O'R GLOCH

Presennol: Margaret Rees (yn y gadair),Alan Lewis,Ian Evans,Tyssul Evans,Linda Williams,Caroline Williams,Geraint Rosser a'r Clerc,Glyndwr Prideaux.

Ymddiheuriadau: Heddwyn Jones,Tracey James,Geoff Hewitt,Aled Williams,Meic Bowen

2574 Croesawyd pawb i'r Cyfarfod gan y Cadeirydd. Estynnwyd cydymdeimlad dwys a Linda o golli ei Mam-yng-nghyfraith yn ystod y dyddiau diwethaf.

2575 Cofnodion

Derbyniwyd a llofnodwyd cofnodion y Cyfarfodydd diwethaf ar 01/03/2021 fel rhai cywir.

2576 Materion yn codi.

Tud 1. Cofnod Rhif 2552 - Clwb Cymdeithasol Carwe. – Arhoswn am ymateb oddiwrth y Cyngor Sir.
Tud 1. Cofnod Rhif 2552- Swyddfa Bost Carwe - Cysylltwn eto gyda'r Swyddfa Bost er mwyn trefnu Cyfarfod Safle pan bod y sefyllfa COVID-19 yn caniatáu.
Tud 1. Cofnod Rhif 2552 – Cofeb Rhyfel Pontiets – Derbyniwyd adroddiad gan y Clerc ein bod wedi gwneud cais am nawdd ariannol oddiwrth 'War Memorials Online'
Tud 1. Cofnod Rhif 2552 - Parc Pontiets - Gobeithir symud ymlaen a'r gwaith angenrheidiol o fewn yr wythnosau nesaf os bydd y tywydd yn caniatáu.
Tud 1. Cofnod Rhif 2552 – Llwybr Treftadaeth – Derbyniwyd amcan brys oddiwrth Cwmni Phillip Wait,Cynghordy. Penderfynwyd gwneud cais am nawdd o dan yr 'Heritage Lottery'
Tud 1. Cofnod Rhif 2552 - Glanhau/Golchi Ceir - Heol y Meinciau,Pontiets - Gan nad yw'r mater wedi ei datrys a'r ffaith eu bod yn achosi problem wrth ddod allan o Heol Bancyroffis gofynnir i'r Heddlu gwneud ymholiadau pellach fel mater o frys.

Gohebiaeth

Ceisiadau am grant/cyfraniadau ariannol:-

2577 Gofal Mewn Galar – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2578 Canser Macmillan Cymru – Llythyr yn diolch am y rhodd.

2579 Côr Glannau'r Gwendraeth - Llythyr yn diolch am y rhodd.

Gohebiaeth gyffredinol :-

2580 Un Llais Cymru - Aelodaeth am 2021/2022 - Awdurdodwyd y Clerc i dalu'r gyfran o £594.00

2581 Cyngor Sir Gar – Cau Ffordd Dros Dro – C2069 - Nodwyd y Llythyr.

Ceisiadau Cynllunio

2582 a) Rhif y Cais – PL/01513 – Green Villa,Meinciau – Garej – Dim Gwrthwynebiad.
b) Rhif y Cais - PL/01577 - Oakland,Pedair Heol - Tŷ Annedd - Dim Gwrthwynebiad.

Cynghorwr Ian Evans yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod

c) Rhif y Cais – PL/01583 – Ysgol Carwe – Gwaith er lles Cylch Meithrin Carwe – Dim Gwrthwynebiad .

Ian yn ail ymuno a'r cyfarfod.

ch) Rhif y Cais – PL/01615 – Pen y Banc,Llangyndeyrn – Stordy – Dim Gwrthwynebiad.

Gwaharddiad y Cyhoedd

2583 Penderfynwyd gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod o achos ein bod yn trafod materion cyfrinachol

Adroddiad o Daliadau a Threuliau'r Mis

2584 Derbyniwyd adroddiad ariannol Mis Mawrth 2021. Derbyniwyd argymhelliad y Clerc ein bod yn trosglwyddo gweddillion rhan o'r gyllideb sydd heb eu gwario i'r lein gyffredinol.

Adroddiad Ariannol Misol

2585 Penderfynwyd bod y canlynol i'w dalu :-
a) Cyflog y Clerc - £446.63 (Mis Mawrth)
b) Ffon Tŷ'r Clerc - £25.00 (Mis Mawrth)
c) Cydnabyddiaeth y Syrfëwr - £110.00 (Mis Mawrth)
ch) HMRC (Treth)- £89.40 (Mis Mawrth)
d) Ffon Symudol y Cyngor - £9.98 (Mis Mawrth)
dd) BT – Ffon y Swyddfa - £50.64 (Mis Mawrth)
e) Paula Clarke – Glanhau Toiledau'r Meinciau (Mis Mawrth)- £205.39
f) EDF – Trydan – Toiledau'r Meinciau (Mis Mawrth) - £13.11
ff) Ciran Griffiths - Gwaith ar Lwybr Treftadaeth - £10.00
g) Cyngor Sir Gar – Hanner Golau - £6.79
ng) Cyngor Sir Gar - Golau'r Droedffordd - £8413.20
h) Dragon Sports – Gwaith ym Marc Pontiets - £2365.00
i) Stampiau - £71.40

2586 Asesiad Risg Cyllidol
Wedi trafodaeth lwyr a chlir, cynigwyd Tyssul Evans ac eiliwyd gan Alan Lewis ein bod yn derbyn Adroddiad Asesiad Risg Cyllidol am y flwyddyn 2021/2022.

Cynghorwyr Tyssul Evans,Alan Lewis a Linda Williams yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod

2587 Grantiau Blynyddol
Wedi trafodaeth lwyr a clir, cynigwyd gan Ian Evans ac eiliwyd gan Carol Williams i addasu'r pennawd Addoldai a dileu'r cymal 'I gynnal a chadw mynwentydd'

Tyssul,Alan a Linda yn ail ymuno a'r cyfarfod.

Cynghorwr Tyssul Evans yn datgan diddordeb,arwyddo'r ffurflen a gadael y cyfarfod.

2588 Camerâu CCTV ym Marc Pontiets
Wedi derbyn adroddiad y Clerc cynigwyd gan Linda Williams ac eiliwyd gan Alan Lewis ein bod fel Cyngor yn gosod camerâu CCTV yn y Parc ar gost o £1258.80.

2589 Parc Pontiets
Wedi derbyn adroddiad gan y Clerc, penderfynwyd fel y ganlyn :-

a) Cael amcan-brys am drashio rownd y ffens sy'n ffinio'r ffordd fawr.
b) Cael amcan-brys o drwsio'r ffens a'i baentio.
c) Cael amcan-brys am baentio'r seddi pren yn y Parc.
Ch) Cysylltu â'r Grŵp Cymunedol sydd yn adolygu'r dodrefn yn y Parc yn gofyn beth yw eu syniadau ynglŷn â'r dyfodol.

2590 Parc Carwe

Derbyniwyd llythyr oddiwrth Clwb Pêl-droed a Chriced Carwe yn mynegi eu bwriad i ddatblygu Parc Chwarae Carwe ar gost o tua £57725.98 + TAW. Wedi trafodaeth penderfynwyd cefnogi eu cais,mewn egwyddor, am arian o 'r Cyngor Sir o dan Ddeddf 106 (Ffoslas)

Cyfarfod nesaf:- 10fed o Fai 2021 (Yn dilyn y Cyfarfod Blynyddol)

Llofnodwyd……. CADEIRYDD

Dyddiad……